Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 70/2015

# Arolwg o Dderbynyddion Grantiau Llywodraeth Cymru 2015

# Arolwg o Dderbynyddion Grantiau Llywodraeth Cymru 2015

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cerys Ponting
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 02920 370342

Cerys.Ponting@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 14 Rhagfyr 2015

ISBN 978-1-4734-5320-3

© Hawlfraint y Goron 2015

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, ac eithrio lle y nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

## Tabl Cynnwys

**Tabl Ffigurau** ........ **2**

**Crynodeb Gweithredol** ........ **4**

**1 Cyflwyniad** ........ **6**

**2 Dulliau** ........ **7**

*2.1 Ystyriaethau methodolegol* ........ *7*

**3 Canfyddiadau** ........ **8**

*3.1 Proffil y sampl* ........ *8*

*3.2 Boddhad â'r broses grantiau* ........ *10*

3.2.1 Derbynyddion grantiau cyfredol - boddhad ........ 11

3.2.2 Derbynyddion grantiau diweddar - holiadur boddhad byr ........ 28

*3.3 Y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau* ........ *29*

*3.4 Ymwybyddiaeth o newidiadau er 2012 a boddhad â'r newidiadau hynny* ........ *31*

*3.5 Sylwadau agored - profiadau cyffredinol ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r broses rheoli grantiau* ........ *35*

**4 Meysydd ychwanegol yr ymdriniwyd â hwy yn yr arolwg** ........ **39**

*4.1 Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector* ........ *39*

*4.2 Y Gymraeg* ........ *41*

**Atodiad A** ........ **44**

**Atodiad B** ........ **53**

## Tabl Ffigurau

*Ffigur 1: Ym mha flwyddyn ariannol y gwnaethoch chi dderbyn eich grant diweddaraf gan Lywodraeth Cymru?* ..... 9
*Ffigur 2: I ba fath o sefydliad yr ydych yn gweithio?* ..... 10
*Ffigur 3: I ba fath o sefydliad yr ydych yn gweithio? (Derbynyddion 'cyfredol')* ..... 11
*Ffigur 4: A ydych chi wedi bod yn rhan o unrhyw rai o'r prosesau isod? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)* ..... 12
*Ffigur 5: Boddhad cyffredinol â'r broses grantiau a chymorth gan swyddogion* ..... 13
*Ffigur 6: Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r canllawiau ynghylch gwneud cais* ..... 14
*Ffigur 7: Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r broses o wneud cais a chael penderfyniad* ..... 15
*Ffigur 8: Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â chytundeb ariannu Llywodraeth Cymru* ..... 16
*Ffigur 9: Ar y cyfan roeddwn yn fodlon â'r broses hawliadau a thaliadau* ..... 17
*Ffigur 10: Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r broses monitro grantiau* ..... 18
*Ffigur 11: Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r cymorth a gefais gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru* ..... 19
*Ffigur 12: O feddwl am y canllawiau cychwynnol ynglŷn â gwneud cais am grant gan Lywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?* ..... 20
*Ffigur 13: O feddwl am y broses o wneud cais a phenderfynu arno, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?* ..... 21
*Ffigur 14: O feddwl am y cytundeb ariannu, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?* ..... 22
*Ffigur 15: O feddwl am y broses hawliadau a thaliadau, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?* ..... 23
*Ffigur 16: O feddwl am y broses monitro grantiau, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?* ..... 24
*Ffigur 17: A ydych chi eich hun wedi cael unrhyw gysylltiad uniongyrchol â swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â rheoli grantiau?* ..... 25
*Ffigur 18: O feddwl am unrhyw gysylltiadau rhyngoch chi a swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?* ..... 26
*Ffigur 19: I ba fath o sefydliad yr ydych yn gweithio? (Derbynyddion 'diweddar')* ..... 28

*Ffigur 20: O feddwl am eich profiad o reolaeth grantiau Llywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?* .................... 29
*Ffigur 21: A ydych chi'n ymwybodol o'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau?* .................. 30
*Ffigur 22: A ddarparwyd cymorth a chyngor i chi gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau?* .......................................................................................... 30
*Ffigur 23: O feddwl am y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?*.................................................. 31
*Ffigur 24: A ydych chi hefyd wedi derbyn grant gan Lywodraeth Cymru cyn y flwyddyn ariannol honno?*......................................................................... 32
*Ffigur 25: A ydych wedi sylwi ar unrhyw newidiadau i broses rheoli grantiau Llywodraeth Cymru dros y pedair blynedd ddiwethaf?* ............................................. 33
*Ffigur 26: O feddwl am y newidiadau i broses rheoli grantiau Llywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?* .............. 34
*Ffigur 27: A ydych chi wedi clywed am y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector?*.............................................................................................. 39
*Ffigur 28: O feddwl am y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:* ................................ 40
*Ffigur 29: Ym mha iaith y byddai'n well gennych gyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â grantiau?* ................................................................................ 41
*Ffigur 30: Pa mor aml ydych chi'n gallu defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â grantiau?* ..................................................... 42

## Crynodeb Gweithredol

### *Dull*

- Cynhaliwyd arolwg ar-lein gyda derbynyddion grantiau Llywodraeth Cymru rhwng 2 a 21 Medi 2015 i fesur eu lefelau boddhad presennol â'r broses grantiau ac i asesu a oedd pethau wedi gwella ers rhoi newidiadau mewnol ar waith drwy'r Prosiect Rheoli Grantiau.
- Gofynnwyd i reolwyr grantiau yn Llywodraeth Cymru roi manylion cyswllt derbynyddion grantiau Llywodraeth Cymru a oedd wedi derbyn grantiau ers mis Ebrill 2012. Darparwyd 5573 o gyfeiriadau e-bost dilys a llwyddwyd i sicrhau cyfradd ymateb o 18.5% (1033 o ymatebion).
- Categoreiddiwyd yr ymatebwyr fel derbynyddion grantiau: 'cyfredol', sef y rhai a gafodd grantiau rhwng mis Ebrill 2014 a mis Ebrill 2016 (67%); 'diweddar', sef y rhai a gafodd grantiau rhwng mis Ebrill 2012 a mis Ebrill 2014 (17%); ac ymatebwyr 'eraill' a oedd y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hwn (16%).

### *Boddhad â'r broses grantiau*

- Roedd ymateb y derbynyddion grantiau 'cyfredol' yn eithaf cadarnhaol a chofnodwyd sgoriau boddhad o fwy na 60% ganddynt ar gyfer pob datganiad am bob cam o'r broses grantiau.
- Roedd y lefelau uchaf o foddhad cyffredinol yn ymwneud â'r canllawiau cychwynnol ar gyfer gwneud cais (74%) a'r cymorth a gafwyd gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru (74%).
- Roedd yr ymatebwyr yn llai bodlon ar y broses o wneud cais a chael penderfyniad er bod y sgôr boddhad yn gymharol uchel, sef 62%. Roedd y dangosydd perfformiad isaf yn y maes hwn ynglŷn chyfleu gwybodaeth am amserlen y broses gwneud cais a chael penderfyniad (64%). Cafwyd awgrymiadau hefyd am sut y gellid gwella prydlondeb y broses gwneud cais yn y sylwadau agored a roddodd yr ymatebwyr.
- Roedd boddhad â'r broses grantiau ar draws sectorau'n amrywio. Yn gyffredinol, y sector preifat a'r trydydd sector oedd fwyaf bodlon ac roedd y sector cyhoeddus yn llai bodlon. Roedd hyn yn arbennig o amlwg wrth ystyried boddhad â'r broses gwneud cais a chael penderfyniad, y cytundeb ariannu a'r broses monitro grantiau. Er bod y categori 'arall' wedi cofnodi lefelau uchel o foddhad, roedd nifer yr ymatebwyr yn rhy fach i'w cymharu'n ddigon dibynadwy â'r sectorau eraill.

- Roedd lefelau boddhad yn uchel hefyd ymhlith y grŵp a oedd wedi cael grantiau'n 'ddiweddar', a hwnnw'n cynnwys yn bennaf ymatebwyr o'r sector preifat. Cofnodwyd sgoriau boddhad uwch na 70% gan y rhain ar gyfer pob datganiad am bob cam o'r broses grantiau. Dylid nodi nad oes modd cymharu'r grŵp hwn yn uniongyrchol â'r derbynyddion 'cyfredol' oherwydd bod proffil y sampl yn sylweddol wahanol.
- Rhoddwyd y cyfle i bob ymatebydd gynnig sylwadau agored am y broses grantiau. Cafwyd adborth cadarnhaol am y cysylltiad yr oeddent wedi'i gael â swyddogion ac am sut yr oeddent wedi defnyddio arian grant i sicrhau canlyniadau. Cynigiwyd nifer o awgrymiadau am sut y gellid ysgafnhau baich gweinyddol y broses grantiau, gwella prydlondeb ac anghysondeb y broses a'r cyfathrebu yn ei gylch.

### *Ymwybyddiaeth o newidiadau i'r broses grantiau*

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn ymwybodol o Ganolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru; roedd 13% o'r derbynyddion grantiau 'cyfredol' a 'diweddar' yn ymwybodol ohoni ac roedd 27% o'r rheini wedi cael cyngor a chymorth gan y Ganolfan. Roedd boddhad ymatebwyr â'r Ganolfan Ragoriaeth yn gymysg, ond roedd nifer yr ymatebwyr yn fach iawn ac felly nid oes modd llunio casgliadau cadarn ynglŷn â hyn.
- Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oeddent wedi cael grant o'r blaen er mwyn cael eu barn am y newidiadau i drefniadau rheoli grantiau a oedd wedi'u rhoi ar waith dros y pedair blynedd flaenorol. O blith y rhai a ddywedodd eu bod wedi cael grant o'r blaen, roedd 39% wedi sylwi bod y broses wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf, nid oedd 45% wedi sylwi ar unrhyw newid a dywedodd 17% nad oeddent yn gwybod.
- O'r rhai a oedd wedi sylwi ar newidiadau i'r broses rheoli grantiau, roedd 54% yn teimlo'n gadarnhaol bod y newidiadau wedi gwneud y broses yn fwy cyson, a dim ond 34% a oedd yn teimlo'n gadarnhaol bod y newidiadau wedi gwneud y broses rheoli grantiau'n llai beichus. Er bod y sgoriau boddhad ar gyfer y cwestiynau hyn yn amlwg yn is na'r lleill, roedd o leiaf un rhan o dair o'r ymatebwyr wedi rhoi ymateb niwtral ar gyfer pob ymateb, gan awgrymu efallai nad oeddent yn teimlo eu bod yn gwybod digon am effaith y newidiadau i farnu'r naill ffordd neu'r llall.

# 1 Cyflwyniad

Mae arian grant yn gyfrwng hanfodol i wireddu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y'u rhestrir yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae rhyw 18,000-20,000 o grantiau'n cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn.

Ym mis Medi 2010, sefydlwyd y Prosiect Rheoli Grantiau er mwyn rhoi gwelliannau ar waith yn y broses rheoli grantiau ar draws Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r prosiect hwn, sefydlwyd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau'n dweud mai diffiniad Llywodraeth Cymru o grant yw: pob taliad heb ei gaffael i gyrff neu unigolion allanol ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflawni ei hamcanion polisi a'i dyletswyddau statudol. Mae'r diffiniad lefel uchel wedi'i fabwysiadu i gynnwys yr holl daliadau sy'n cael eu hystyried yn 'grant' yn Llywodraeth Cymru.

Ers sefydlu'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, mae wedi hwyluso nifer o newidiadau i brosesau rheoli grantiau Llywodraeth Cymru ers 2012, gan gynnwys cyflwyno Safonau Gofynnol ar gyfer Grantiau, templedi safonol a datblygu canllawiau a hyfforddiant i swyddogion Llywodraeth Cymru, ac mae wedi sefydlu blwch post ar gyfer ymholiadau allanol.

Nod cyffredinol yr ymchwil felly oedd casglu tystiolaeth am sut mae derbynyddion grantiau o 2012 ymlaen yn teimlo am y gwasanaethau sy'n gysylltiedig â gwneud cais am grantiau, o ran y broses a'i gwasanaethau cefnogi. Datblygwyd arolwg ar-lein er mwyn:

- mesur lefelau boddhad presennol â gwahanol elfennau'r broses grantiau ymhlith derbynyddion grantiau presennol a rhai blaenorol (adran 3.2);
- asesu a yw derbynyddion grantiau wedi cael unrhyw fudd yn sgil y newidiadau a gyflwynwyd drwy'r Prosiect Rheoli Grantiau (adrannau 3.3 a 3.4); a
- gofyn i'r ymatebwyr am flaenoriaethau allweddol eraill Llywodraeth Cymru gyda golwg ar y Cod Ymarfer i'r Trydydd Sector a'u dewis iaith wrth gyfathrebu â Llywodraeth Cymru am grantiau (adran 4).

## 2 Dulliau

Mabwysiadwyd arolwg ar-lein fel dull o gynnal yr ymchwil.

Roedd yr holiadur ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae i'w weld yn Atodiad A. Cynlluniwyd yr holiadur er mwyn i bobl allu ei lenwi'n gyflym ac roedd yn cynnwys opsiynau llwybro ar gyfer derbynyddion grantiau cyfredol a diweddar er mwyn ysgafnhau'r baich ar ymatebwyr. Dim ond un cwestiwn a oedd yn orfodol, sef ym mha flwyddyn y dyfarnwyd y grant diweddaraf iddynt gan Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod yr ymatebydd yn dilyn y ‘trywydd’ cywir drwy'r holiadur cyfan. Roedd gweddill y cwestiynau'n ddewisol, ac felly roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis peidio â'u hateb os dyna’u dymuniad.

Roedd sampl yr arolwg yn deillio o'r wybodaeth a ddarparwyd gan reolwyr grantiau Llywodraeth Cymru a wahoddwyd i gyflwyno manylion cyswllt derbynyddion grantiau yr oeddent wedi cysylltu â hwy er 2012. Darparwyd 6787 o fanylion gan reolwyr grantiau, ac ar ôl glanhau a dileu gwallau a chofnodion dyblyg, cafwyd cyfanswm o 5573 o fanylion cyswllt. Roedd y sampl yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer derbynyddion yn y sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector addysg a'r trydydd sector.

Dosbarthwyd negeseuon e-bost yn cynnwys dolen at yr arolwg ar-lein, gan ddefnyddio meddalwedd Questback, ddydd Mercher 2 Medi 2015, yr un diwrnod ag y lansiwyd yr arolwg. Daeth cyfnod yr arolwg i ben ddydd Llun 21 Medi 2015. Anfonwyd e-bost atgoffa at bob derbynnydd ddydd Gwener 11 ac eto ar 18 Medi 2015 i annog rhagor o bobl i ymateb. O blith y 5573 o hawlwyr a wahoddwyd i gymryd rhan, cwblhaodd 1033 o ymatebion yr arolwg.

Mae holl ganlyniadau'r arolwg yn agored i amrywioldeb o ran y sampl sy'n golygu nad yw gwahaniaethau y sylwir arnynt rhwng is-grwpiau yn ystadegol arwyddocaol bob tro h.y. efallai eu bod wedi digwydd ar hap. Profwyd arwyddocâd ystadegol ar lefel $p=0.05$ i ymchwilio i’r gwahaniaethau rhwng sectorau.

### 2.1 Ystyriaethau methodolegol

Mae'r sgoriau boddhad yn yr adran ganfyddiadau'n cael eu cyfrifo fel sgoriau cadarnhaol (gan gyfuno canrannau'r rheini a ddewisodd cytuno'n gryf a chytuno i ateb y datganiadau) a sgoriau negyddol (gan gyfuno canrannau'r rhai a ddewisodd anghytuno'n gryf ac anghytuno).

Dylid nodi bod y canrannau a ddangosir yn y siartiau wedi'u talgrynnu'n rhifau cyfan er mwyn symleiddio'r cyflwyniad a gallai'r rhain godi neu ostwng un pwynt canran wrth eu cyfuno i ffurfio'r sgôr gadarnhaol neu negyddol. Mae gwerthoedd rhwng .00 a .49 wedi talgrynnu i lawr a gwerthoedd rhwng .50 a .99 wedi'u talgrynnu i fyny. Er mwyn sicrhau'r cywirdeb gorau, bydd y talgrynnu'n cael ei wneud yn ystod cam olaf y cyfrifo. Os defnyddiwch y ffigurau sydd wedi'u talgrynnu yn y siartiau i gyfrifo, mae'n bosibl y bydd y rhain fymryn yn wahanol i'n cyfrifiadau ni. Er enghraifft, os byddwch yn adio'r sgoriau ar gyfer Cytuno'n Gryf, Cytuno, Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno, Anghytuno ac Anghytuno'n Gryf, ni fydd y rhain o reidrwydd yn gwneud cyfanswm o 100 y cant.

O ystyried y dull a ddefnyddiwyd i gael y sampl, ni ddylid dehongli'r canfyddiadau o anghenraid fel pe baent yn cynrychioli pawb sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru. Mae'n bwysig hefyd nodi mewn ambell achos bod sylfaen yr ymatebwyr i rai o'r is-gwestiynau'n fach iawn. Mewn achosion fel hyn, dylid gochel rhag dehongli'r canfyddiadau ac mae nodyn (D.S. mae rhai sylfeini 'n fach iawn) o dan y ffigurau i ddangos ymhle y dylid bod yn ofalus.


# 3 Canfyddiadau

## 3.1 Proffil y sampl

Cafwyd cyfanswm o 1033 o ymatebion i'r arolwg o blith y 5573 a wahoddwyd, gan roi cyfradd ymateb o 18.5 y cant. Cafodd 67 y cant o'r ymatebwyr eu categoreiddio'n dderbynyddion grantiau 'cyfredol' (rhwng mis Ebrill 2014 a mis Ebrill 2016) ac 17 y cant eu categoreiddio'n dderbynyddion grantiau 'diweddar' (rhwng mis Ebrill 2012 a mis Ebrill 2014) (Ffigur 1).

Cafodd yr 16 y cant arall a gafodd grant cyn 2012 neu'r rhai a ddywedodd nad oedd Llywodraeth Cymru erioed wedi dyfarnu grant iddynt, eu rhoi yn y categori 'eraill'. Mae'r grŵp hwn y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hwn, sef cofnodi barn derbynyddion grantiau ers cyflwyno newidiadau pwysig i'r broses rheoli grantiau o 2012 ymlaen. Mae canfyddiadau'r grŵp hwn i'w gweld yn Atodiad B.

*Ffigur 1: Ym mha flwyddyn ariannol y gwnaethoch chi dderbyn eich grant diweddaraf gan Lywodraeth Cymru?*





*Nifer yr ymatebwyr: 1033*

Yn yr adroddiad hwn, cyflwynir y canfyddiadau yn unol â'r grwpiau uchod i adlewyrchu'r llwybro a ddefnyddiwyd yn yr holiadur.

O ran y math o sefydliad yr oedd yr ymatebydd yn gweithio iddo, fel y dangosir yn Ffigur 2, roedd ychydig dros eu hanner (52 y cant) yn dod o gyrff yn y sector preifat, 21 y cant o'r sector cyhoeddus ac 20 y cant yn ymatebwyr o'r trydydd sector. Roedd 4 y cant yn gweithio mewn sefydliad addysgol, a 3 y cant yn gweithio i fathau 'eraill' o gyrff, megis papurau rhanbarthol a chyrff aelodaeth.

*Ffigur 2: I ba fath o sefydliad yr ydych yn gweithio?*




*Nifer yr ymatebwyr: 1021*

### 3.2 Boddhad â'r broses grantiau

Gofynnwyd i ymatebwyr am eu boddhad ar raddfa bum pwynt o 'Cytuno'n Gryf' i 'Anghytuno'n Gryf' â'r camau canlynol yn y broses grantiau:

- canllawiau ynglŷn â gwneud cais
- y broses o wneud cais a chael penderfyniad;
- y cytundeb ariannu;
- y broses hawliadau a thaliadau; a'r
- broses o fonitro grantiau.

At hynny, gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr am eu boddhad wrth ymwneud â swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru.

Cyfrifwyd y sgoriau boddhad fel sgoriau cadarnhaol (gan gyfuno canrannau'r rhai a ddewisodd ‘cytuno'n gryf’ a ‘cytuno’ i ateb y datganiadau) a sgoriau negyddol (gan gyfuno canrannau'r rhai a ddewisodd ‘anghytuno'n gryf’ ac ‘anghytuno’). Roedd yr arolwg yn cynnig gwahanol lwybrau i'r grŵp cyfredol o dderbynyddion grantiau a'r grŵp diweddar. Mae canlyniadau'r ddau grŵp hyn felly wedi'u cyflwyno ar wahân isod.


Ar ôl y cwestiynau ynglŷn â’u boddhad, cynigiwyd y cyfle i bob ymatebydd roi ei adborth drwy ofyn cwestiwn penagored yn gofyn am sylwadau.

### 3.2.1 Derbynyddion grantiau cyfredol - boddhad

Gofynnwyd i dderbynyddion grantiau cyfredol (y rhai a gafodd grant rhwng mis Ebrill 2014 a mis Ebrill 2016) ddweud pa gamau o'r broses grantiau yr oeddent wedi bod yn ymwneud â nhw, fel cwestiwn hidlo er mwyn gweld pa gwestiynau dilynol a fyddai'n berthnasol iddynt.

Mae Ffigur 3 yn dangos proffil sampl yr ymatebwyr sy'n dderbynyddion grant cyfredol. Daeth y gyfran fwyaf o'r sector preifat (39 y cant), 28 y cant o'r sector cyhoeddus a 27 y cant o'r trydydd sector. Roedd cyfran fach (tri y cant) yn dweud eu bod yn gweithio i sefydliad addysgol neu sefydliad arall.


*Ffigur 3: I ba fath o sefydliad yr ydych yn gweithio? (Derbynyddion 'cyfredol')*




*Nifer yr ymatebwyr: 682*

Fel mae Ffigur 4 yn ei ddangos, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (86 y cant) wedi ymwneud â chyflwyno cais am grant i Lywodraeth Cymru, a'r gyfran leiaf (64 y cant) wedi ymwneud â chytuno ar delerau ac amodau'r grant.

*Ffigur 4: A ydych chi wedi bod yn rhan o unrhyw rai o'r prosesau isod? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)*





*Nifer yr ymatebwyr*: *678*

Mae Ffigur 5 yn dangos sgoriau boddhad cyffredinol â phob cam o'r broses grantiau ac ymwneud yr ymatebwyr â swyddogion. Roedd y boddhad cyffredinol dros 60 y cant ar gyfer pob cam o'r broses.

Roedd y lefelau uchaf o foddhad cyffredinol yn ymwneud â'r canllawiau cychwynnol wrth wneud cais a'r cymorth a gafwyd gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd sgôr gadarnhaol o 74 y cant i'r ddau ddatganiad hyn (wrth gyfuno canrannau 'cytuno'n gryf' a 'cytuno'). Y cymorth a gafwyd gan swyddogion grantiau hefyd a gafodd y sgôr negyddol isaf, sef 10 y cant (y rhai sy'n anghytuno'n gryf ac yn anghytuno).

Cofnodwyd y sgôr gadarnhaol isaf (62 y cant)  a'r sgôr negyddol uchaf (16 y cant) ar gyfer y broses gwneud cais a chael penderfyniad. Cafodd y broses hon hefyd gyfran gymharol fawr hefyd o ymatebion niwtral (21 y cant).

*Ffigur 5: Boddhad cyffredinol â'r broses grantiau a chymorth gan swyddogion*




*Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod)*: *590,584,445,556,465,540*

#### *3.2.1.1 Boddhad fesul sector*

Dadansoddwyd y datganiadau am foddhad cyffredinol yn ôl math o sefydliad er mwyn gweld a oedd unrhyw wahaniaethau rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector o'u cymharu â'r cyfartaledd ar draws y sectorau. 'Eraill' oedd yr ymatebwyr hynny a ddewisodd naill ai'r categori 'Eraill' neu 'Sector Addysg'; cyfunwyd y categorïau hyn oherwydd dim ond nifer fach o ymatebwyr a'u dewisodd. Hyd yn oed ar ôl eu cyfuno, roedd nifer yr ymatebwyr 'Eraill' yn rhy fach i'w cymharu'n ddibynadwy â'r sectorau eraill.


Cynhaliwyd profion arwyddocâd ystadegol a gwelwyd bod pob gwahaniaeth yn yr adran hon yn arwyddocaol ar lefel p=0.05 ac eithrio mewn ambell achos. Lle nad oedd y canlyniadau'n arwyddocaol ar lefel p=0.05, maent wedi'u nodi â seren (*).

**Canllawiau ynghylch gwneud cais - boddhad cyffredinol fesul sector**

Ynglŷn â'r canllawiau ymgeisio, fel y mae Ffigur 6 yn ei ddangos, ychydig o wahaniaeth oedd rhwng y sectorau. Roedd y sgôr gadarnhaol a gafwyd gan y sector preifat fymryn yn uwch (74 y cant). Roedd y sgôr gadarnhaol a gafwyd gan y sector cyhoeddus fymryn yn is (70 y cant). Gan y sector cyhoeddus hefyd y cafwyd y sgôr

niwtral uchaf (21 y cant) gan ddangos nad oedd yr ymatebwyr hynny'n teimlo y gallent farnu'r naill ffordd na'r llall am y canllawiau[1]*.

*Ffigur 6: Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r canllawiau ynghylch gwneud cais*





*Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 584, 144, 235, 167, 38*

### Y broses o wneud cais a chael penderfyniad - boddhad cyffredinol fesul sector

O ran boddhad â'r broses o wneud cais a chael penderfyniad, y sector preifat oedd fwyaf bodlon, gan roi'r sgôr boddhad gadarnhaol uchaf (67 y cant), a'r sector cyhoeddus oedd leiaf bodlon, gan roi'r sgor gadarnhaol isaf (45 y cant). Y sector cyhoeddus hefyd a roddodd y sgôr negyddol uchaf (20 y cant). Roedd dros draean o ymatebion y sector cyhoeddus i'r cwestiwn hwn yn niwtral (36 y cant), gan ddweud na allent farnu'r naill ffordd na'r llall (Ffigur 7).

[1]* Ni chanfuwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng sectorau ar lefel p = 0. 05 ar gyfer y datganiad boddhad yma

*Ffigur 7: Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r broses o wneud cais a chael penderfyniad*





*Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 577, 140, 235, 165, 37*

**Cytundeb ariannu - boddhad cyffredinol fesul sector**

O ran cytundeb ariannu Llywodraeth Cymru (Ffigur 8), gan y sector preifat unwaith eto y cofnodwyd y lefelau boddhad uchaf (sgôr gadarnhaol 76 y cant a sgôr negyddol 9 y cant) a'r sector cyhoeddus oedd leiaf bodlon, gan roi'r sgôr gadarnhaol isaf (55 y cant) a'r sgôr negyddol uchaf (20 y cant). Yn unol â chwestiynau blaenorol, rhoddwyd y sgôr niwtral uchaf gan y sector cyhoeddus (25 y cant).

*Ffigur 8: Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â chytundeb ariannu Llywodraeth Cymru*





*Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 438, 116, 172, 123, 27*

**Hawliadau a thaliadau - boddhad cyffredinol fesul sector**

Wrth ymateb i'r cwestiwn am foddhad â'r broses hawliadau a thaliadau (Ffigur 9), prin oedd y gwahaniaethau rhwng y sgoriau boddhad. Cofnodwyd lefelau boddhad ychydig yn uwch gan y sector preifat (sgôr gadarnhaol o 68 y cant) na chan y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, a'r sector cyhoeddus a roddodd y sgôr negyddol isaf (14 y cant) a sgor niwtral fymryn yn uwch (20 y cant)[2]*.

[2]* Ni chanfuwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng sectorau ar lefel p = 0. 05 ar gyfer y datganiad boddhad yma

*Ffigur 9: Ar y cyfan roeddwn yn fodlon â'r broses hawliadau a thaliadau*





*Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 549, 164, 205, 148, 32*

**Y Broses Fonitro - boddhad cyffredinol fesul sector**

O ran boddhad â'r broses monitro grantiau (Ffigur 10), ymatebwyr y trydydd sector oedd fwyaf bodlon, gan roi'r sgôr gadarnhaol uchaf (73 y cant) a'r sgôr negyddol isaf (7 y cant). Y sector cyhoeddus oedd leiaf bodlon, gan roi'r sgôr gadarnhaol isaf (1 y cant) a'r sgôr negyddol uchaf (18 y cant).

*Ffigur 10: Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r broses monitro grantiau*





*Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 458, 167, 127, 140, 24*

**Cymorth gan swyddogion Llywodraeth Cymru - boddhad cyffredinol fesul sector**

Wrth ymateb i'r cwestiwn am foddhad â'r cymorth gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru (Ffigur 11), roedd sgoriau boddhad yr holl ymatebwyr dros 70 y cant. Ymatebwyr y sector preifat oedd fwyaf bodlon gan roi'r sgôr gadarnhaol uchaf, sef 74 y cant, ond nhw hefyd a gofnododd y sgôr negyddol uchaf (14 y cant). Ymatebwyr y sector cyhoeddus a roddodd y sgôr negyddol isaf (7 y cant) a'r sgôr niwtral uchaf (21 y cant).

*Ffigur 11: Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r cymorth a gefais gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru*




*Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 534, 165, 186, 148, 35*

#### *3.2.1.2 Manylion boddhad â phob cam o'r broses grantiau*

**Cyflwyno cais am grant gan Lywodraeth Cymru**

I'r rhai a oedd wedi dweud eu bod wedi cyflwyno cais am grant gan Lywodraeth Cymru, cyflwynwyd dau fanc o ddatganiadau boddhad iddynt; un yn ymwneud â chanllawiau gwneud cais ac un arall am y broses gwneud cais a chael penderfyniad.


***a. Canllawiau gwneud cais am Grantiau Llywodraeth Cymru.***

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am y canllawiau cychwynnol ar gyfer gwneud cais am grant gan Lywodraeth Cymru, o ran i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phum datganiad ynglŷn â sut i wneud cais am arian, eglurder y canllawiau gwneud cais; cyfleu'r nodau, yr amcanion a'r canlyniadau a ddymunir gan y grantiau'n glir yn y canllawiau; a oedd y meini prawf cymhwysedd a chyllid wedi eu datgan yn eglur yn y canllawiau ac a oedd yr ymatebwyr yn fodlon ar y cyfan â'r canllawiau ymgeisio.

Fel y gwelir yn Ffigur 12, roedd y boddhad yn gymharol uchel ar gyfer pob un o'r datganiadau hyn, a'r sgoriau cadarnhaol yn amrywio o ychydig dros dri chwarter (76 y cant) i ychydig dros ddwy ran o dair (69 y cant). Rhoddwyd y sgôr gadarnhaol uchaf i eglurder y meini prawf cymhwysedd a'r meini prawf ariannu yn y canllawiau.

Y sgôr gadarnhaol isaf a gafwyd (69 y cant) oedd ar gyfer eglurder a rhwyddineb deall y canllawiau ynglŷn â gwneud cais. Y datganiad hwn hefyd a gafodd y sgôr negyddol uchaf, sef 14 y cant.

*Ffigur 12: O feddwl am y canllawiau cychwynnol ynglŷn â gwneud cais am grant gan Lywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?*




*Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 590,587,590,587,590*


### b. *Prosesau gwneud cais a chael penderfyniad*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd wedi dweud eu bod wedi cymryd rhan yn y broses ymgeisio a chael penderfyniad ddweud i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phedwar datganiad ynglŷn ag a oedd: y broses o wneud cais yn glir ac yn hawdd ei deall; rhoddwyd amser digonol i gwblhau'r ffurflen gais; roedd yr amserlen ar gyfer gwneud cais am grant a chael penderfyniad wedi'i mynegi'n eglur; ac yn olaf a oeddent yn fodlon ar y cyfan â'r broses gwneud cais a chael penderfyniad.

Fel y gwelir yn Ffigur 13, roedd y sgoriau cadarnhaol yn gwrthbwyso'r sgoriau negyddol o bell ffordd, a'r sgôr gadarnhaol uchaf oedd 73 y cant a'r sgôr isaf oedd 63 y cant. Cofnodwyd y lefel boddhad uchaf ar gyfer eglurder y broses gwneud cais a'i bod yn hawdd ei deall, a'r sgôr gadarnhaol uchaf ar gyfer hyn oedd 73 y cant a'r sgôr negyddol isaf oedd 13 y cant.

Cofnodwyd y sgôr negyddol uchaf ar gyfer y datganiad ynglŷn â chyfleu'n glir beth oedd yr amserlen ar gyfer y broses gwneud cais a chael penderfyniad. Roedd y sgôr gadarnhaol ar gyfer y datganiad hwn hefyd yn gymharol isel, sef 64 y cant. Cafwyd sgôr niwtral uchel gan un rhan o bump (21 y cant) o'r ymatebwyr wrth ymateb i'r cwestiwn am foddhad cyffredinol â'r broses gwneud cais a chael penderfyniad - y datganiad hwn hefyd a gafodd y sgôr gadarnhaol isaf.

*Ffigur 13: O feddwl am y broses o wneud cais a phenderfynu arno, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?*




*Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 583,584,585,584*

## Y cytundeb ariannu


Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi ymwneud â chytuno â thelerau ac amodau'r cytundebau ariannu sgorio'u boddhad â phum datganiad ynglŷn â'r cytundeb ariannu, sef: roedd y cytundeb ariannu'n hawdd ei ddilyn a'i ddeall; cyhoeddwyd y cytundeb ariannu mewn da bryd; roedd y cytundeb ariannu'n pennu

swyddogaethau a chyfrifoldebau'r ddwy ochr yn eglur; caniatawyd cyfnod rhesymol i ystyried y cytundeb ariannu cyn ei dderbyn yn ffurfiol; ac yn olaf, roeddwn yn fodlon ar y cyfan â chytundeb ariannu Llywodraeth Cymru.

Fel y gellir ei weld yn Ffigur 14, mae mwy o amrywiadau yn y sgoriau cadarnhaol nag a welwyd yn y cwestiynau blaenorol. Er hynny cafwyd sgôr gadarnhaol dros 60 y cant ar gyfer pob datganiad. Y datganiad ynglŷn â bod swyddogaethau a chyfrifoldebau'r ddwy ochr wedi'u pennu'n eglur a gafodd y sgôr gadarnhaol uchaf, ac yn yr un modd, dyma'r datganiad a gafodd y sgôr negyddol isaf (chwech y cant).

Rhoddwyd y sgôr gadarnhaol isaf, sef 62 y cant, ar gyfer y datganiad ynghylch y cytundeb ariannu'n cael ei gyhoeddi mewn da bryd a hwn hefyd a gafodd y sgôr negyddol uchaf (23 y cant).

*Ffigur 14: O feddwl am y cytundeb ariannu, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?*




*Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 446 447,443,444,445*

**Y broses hawliadau a thaliadau**


I'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi ymwneud â'r broses hawliadau a thaliadau yn y cwestiwn hidlo, cyflwynwyd chwe datganiad, sef: roedd yn hawdd cael gafael ar wybodaeth ar sut i wneud hawliadau; mynegwyd amserlen y broses gwneud hawliadau'n eglur; roedd y templedi a ffurflenni hawlio yn hawdd eu defnyddio;

proseswyd hawliadau mewn da bryd; roeddwn yn fodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'm hawliadau; ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r broses hawliadau a thaliadau.

Fel y gwelir yn Ffigur 15, unwaith eto cafwyd sgoriau cadarnhaol dros 60 y cant gan yr ymatebwyr i bob datganiad. Roedd y sgoriau cadarnhaol yn amrywio o 78 y cant i 61 y cant. Cofnodwyd y sgôr gadarnhaol uchaf ar gyfer mynegi amserlen y broses yn glir; a'r datganiad hwn hefyd a gafodd y sgôr negyddol isaf sef 10 y cant, ynghyd â'r datganiad am rwyddineb cael gafael ar wybodaeth am sut i wneud hawliadau.

Ar gyfer y datganiad ynglŷn ag a oedd y templedi'n hawdd eu defnyddio y cafwyd y sgôr negyddol uchaf (22 y cant) a'r sgôr gadarnhaol isaf (61 y cant).

*Ffigur 15: O feddwl am y broses hawliadau a thaliadau, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?*




*Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod)*: 559,557,555,554,555,556

**Y broses monitro grantiau**


I'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi ymwneud â'r broses monitro, dangoswyd pum datganiad i asesu i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod: y gofynion monitro wedi'u gosod yn eglur yn y cytundeb ariannu; y broses fonitro wedi'i chynnal mewn da bryd; y gofynion monitro'n addas ar gyfer lefel y cyllid; ceisiadau

am newidiadau (e.e. newidiadau o ran amseru, adnoddau) wedi'u trin yn briodol; ac ar y cyfan, eu bod yn fodlon â'r broses monitro grantiau.

Fel y gwelir yn Ffigur 16, rhoddwyd sgoriau cadarnhaol dros 60 y cant unwaith eto i bob datganiad, a'r sgoriau cadarnhaol hynny'n amrywio o 77 i 63 y cant. Rhoddwyd y sgôr gadarnhaol uchaf (77 y cant) ar gyfer a oedd y gofynion monitro wedi'u pennu'n glir yn y cytundeb ariannu.

Rhoddwyd y sgôr gadarnhaol isaf (63 y cant) ar gyfer ymdrin â cheisiadau am newidiadau'n briodol, er y dylid nodi bod y datganiad hwn wedi cael ymateb niwtral gan dros chwarter yr ymatebwyr (29 y cant). Rhoddwyd y sgôr negyddol uchaf (18 y cant) ar gyfer bod y gofynion monitro'n addas i'r lefel ariannu.

*Ffigur 16: O feddwl am y broses monitro grantiau, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?*





*Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 467,466,468,467,465*

### *3.2.1.3 Y cysylltiad â swyddogion Llywodraeth Cymru a'ch boddhad â'r cymorth ganddynt*

Gofynnwyd i'r derbynyddion grant cyfredol hefyd a oeddent wedi cael unrhyw gysylltiad uniongyrchol â swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd y rhan fwyaf ohonynt (80 y cant) wedi cael cysylltiad â swyddogion o'r fath, a chyfeiriwyd yr

ymatebwyr hyn at gronfa o ddatganiadau boddhad ynglŷn â'u profiad o ymwneud â'r swyddogion. Ni ddangoswyd y cwestiynau ychwanegol i'r 20 y cant arall o'r ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent wedi cael cysylltiad neu nad oeddent yn gwybod (Ffigur 17).

*Ffigur 17: A ydych chi eich hun wedi cael unrhyw gysylltiad uniongyrchol â swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â rheoli grantiau?*





*Nifer yr ymatebwyr*: *688*

I'r ymatebwyr a ddywedodd iddynt gael cysylltiad, dangoswyd pump o ddatganiadau'n gofyn iddynt i ba raddau oedden nhw'n cytuno neu'n anghytuno bod: y cymorth a ddarparwyd gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru yn eglur ac yn hawdd ei ddeall; y cymorth a ddarparwyd gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru yn brydlon; y cymorth a ddarparwyd gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru yn gyson; ei bod yn hawdd cael gafael ar yr unigolyn cywir yn Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth; a'u bod yn fodlon ar y cyfan â'r cymorth a gafwyd gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru.

Fel y gwelir yn Ffigur 18, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo'n gadarnhaol ar y cyfan am yr holl ddatganiadau am swyddogion, gan roi sgoriau cadarnhaol a oedd yn amrywio o 79 y cant i 69 y cant. Rhoddwyd y sgôr gadarnhaol uchaf (79%) am eglurder a rhwyddineb deall y cymorth a ddarparwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru - y datganiad hwn hefyd a gafodd y sgôr negyddol isaf (naw y cant).

Rhoddwyd y sgôr gadarnhaol isaf (69 y cant) a'r sgôr negyddol uchaf (17 y cant) am gysondeb y cymorth gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru.

*Ffigur 18: O feddwl am unrhyw gysylltiadau rhyngoch chi a swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?*




*Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod)*: 548,547,547,543,540

### *3.2.1.4 Sylwadau agored - profiadau o ymwneud â swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru*

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr a oedd wedi gweld y cwestiynau ynglŷn â boddhad hefyd gynnig sylwadau i roi rhagor o wybodaeth am eu profiadau'n ymwneud â swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru. Roedd y sylwadau ychwanegol yn ymdrin â'r pwyntiau canlynol (yn nhrefn eu maint):

<u>Adborth cadarnhaol</u>

Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr am eu profiad o ymwneud â swyddogion Llywodraeth Cymru. Dywedodd rhai eu bod yn fodlon ar y cyfan â'r cymorth cyffredinol y byddant yn ei gael ac enwodd nifer o ymatebwyr unigolion penodol, timau grantiau, asiantau, cynghorwyr lleol neu reolwyr cyfrifon a oedd wedi bod yn arbennig o gymwynasgar, hyblyg neu broffesiynol. Soniodd nifer am sut yr oedd swyddogion wedi cyfathrebu'n dda, wedi bod yn rhagweithiol, ymateb yn gyflym a bod yn gefnogol a disgrifiodd eraill berthynas gydweithredol a

phroffesiynol â swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru. Roedd rhai a oedd wedi cael grant hefyd yn teimlo'u bod wedi gweld y gwasanaeth i gwsmeriaid yn gwella dros gyfnod.

Profiad anghyson

Dywedodd nifer lai o  eu bod wedi cael gwasanaeth i gwsmeriaid a oedd yn anghyson wrth ymwneud â swyddogion.

Soniodd rhai am achlysuron lle y rhoddwyd cyngor a oedd yn gwrth-ddweud ei gilydd neu gyngor aneglur iddynt. Er enghraifft, roedd rhai ymatebwyr wedi cael ar ddeall bod gwahanol bobl a oedd wedi cael yr un grant wedi cael cyngor gwahanol i'w gilydd, a bod hyn wedi dod i'r amlwg wrth iddynt gydweithio.

Rhai ffactorau a oedd wedi dylanwadu ar yr anghysonderau hyn oedd bod swyddogion yn mynd ar eu gwyliau blynyddol heb ddarparu manylion cyswllt swyddog arall, a hefyd bod amrywiadau rhanbarthol i'w gweld wrth weinyddu grantiau. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai trosiant staff hefyd fod yn ffactor a oedd yn cyfrannu at hyn.


Cyfathrebu

Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod wedi dod ar draws anawsterau cyfathrebu, er enghraifft, gallai fod yn anodd cael gafael ar swyddogion dros y ffôn neu gael swyddogion i gadarnhau cyngor llafar ar ffurf ysgrifenedig. Weithiau, nid oeddent yn cadarnhau eu bod wedi derbyn e-bost, ac roedd hyn yn destun pryder penodol pan fyddai rhywun yn cyflwyno gwaith papur neu ffurflenni hawliadau pwysig

### 3.2.2 Derbynyddion grantiau diweddar - holiadur boddhad byr

Roedd y derbynyddion grantiau diweddar (rhai a gafodd grant rhwng mis Ebrill 2012 a mis Ebrill 2014) yn bennaf yn cynnwys ymatebwyr o'r sector preifat (77 y cant) sy'n fwy tebygol o gael grantiau untro yn wahanol i'r sector cyhoeddus neu'r trydydd sector sy'n tueddu i gael grantiau ailadroddus. Felly, dim ond nifer fach o ymatebwyr oedd o'r sector cyhoeddus (chwech y cant), o'r trydydd sector (wyth y cant), sefydliadau addysgol (saith y cant) ac eraill (2 y cant) fel y gwelir yn Ffigur 19. Dylid nodi, oherwydd bod proffil sampl y derbynyddion grantiau diweddar yn sylweddol wahanol i broffil sampl y derbynyddion cyfredol (gweler Ffigur 3), nad oes modd cymharu'r canlyniadau.

*Ffigur 19: I ba fath o sefydliad yr ydych yn gweithio? (Derbynyddion 'diweddar')*





*Nifer yr ymatebwyr: 171*

Cynigiwyd adran boddhad fyrrach i dderbynyddion diweddar gyda dim ond un datganiad ar gyfer pob cam o'r broses a'r cymorth a gawsant gan swyddogion. Gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn fodlon ar: y canllawiau ynglŷn â gwneud cais; y broses o wneud cais a chael penderfyniad; cytundeb ariannu Llywodraeth Cymru; y broses hawliadau a thaliadau; y broses o fonitro grantiau; a'r cymorth a gafwyd gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r raddfa bum pwynt o 'cytuno'n gryf' i 'anghytuno'n gryf'; roedd ymateb 'amherthnasol' yn opsiwn er mwyn galluogi ymatebwyr i ddangos nad oedd ganddynt brofiad o'r maes penodol hwnnw. Mae'r ymatebion amherthnasol wedi'u heithrio o'r ffigurau hyn.

Fel y gwelir yn Ffigur 20, roedd yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn unwaith eto'n gadarnhaol eu hagwedd ar y cyfan o ran eu profiadau ar draws y chwe maes cwestiynau a'r sgoriau cadarnhaol yn amrywio o 81 i 70 y cant. Cofnodwyd y lefel boddhad uchaf ar gyfer cytundeb ariannu Llywodraeth Cymru (81 y cant) ac yn dynn ar ei sodlau, sgôr gadarnhaol o 80 y cant ar gyfer y canllawiau ynglŷn â gwneud cais.

Cafwyd y sgôr gadarnhaol isaf ar gyfer y broses o wneud cais a chael penderfyniad (70 y cant). Y datganiad hwn hefyd a gafodd y sgôr negyddol uchaf, sef 15 y cant.

*Ffigur 20: O feddwl am eich profiad o reolaeth grantiau Llywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?*





*Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 172,172,172,168,171,171*

### 3.3 Y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau

Gofynnwyd i dderbynyddion grantiau cyfredol (rhwng Ebrill 2014 ac Ebrill 2016) a derbynyddion grantiau diweddar (rhwng Ebrill 2012 ac Ebrill 2014) a oeddent yn ymwybodol o'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau.

Fel y dangoswyd yn Ffigur 21, nid oedd y mwyafrif helaeth (87 y cant) yn ymwybodol neu nid oeddent yn gwybod a oeddent yn ymwybodol o'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ai peidio. Gofynnwyd nifer o gwestiynau dilynol i'r rhai a ddywedodd eu bod yn ymwybodol ohoni (13 y cant) er mwyn deall eu profiadau'n well.


*Ffigur 21: A ydych chi'n ymwybodol o'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau?*




*Nifer yr ymatebwyr: 858*

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn ymwybodol o'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ddweud a oeddent wedi cael cymorth a chyngor. Roedd ychydig dros chwarter (27 y cant) wedi cael cymorth neu gyngor gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau (Ffigur 22).

*Ffigur 22: A ddarparwyd cymorth a chyngor i chi gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau?*





*Nifer yr ymatebwyr*: *111*

Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd eu bod wedi cael cymorth a chyngor gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau a oeddent yn meddwl bod y cysylltiad â Chanolfan Ragoriaeth

Grantiau Llywodraeth Cymru o fudd ac a oedd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi cael effaith gadarnhaol ar y ffordd y rheolir grantiau gan Lywodraeth Cymru.

Roedd ychydig dros hanner yr is-set hon o ymatebwyr (53 y cant) yn teimlo'n gadarnhaol bod eu cysylltiad â'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau o fudd, ac roedd tua chwarter (27 y cant) wedi rhoi sgôr negyddol ac un rhan o bump (20 y cant) yn teimlo'n niwtral ynghylch hyn. Roedd llai na hanner yr ymatebwyr (43 y cant) yn fodlon bod y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi cael effaith gadarnhaol ar y ffordd y rheolir eu grant gan Lywodraeth Cymru ac roedd yr un gyfran (43 y cant) hefyd wedi rhoi sgôr negyddol ar gyfer y datganiad hwn. Sylwer bod y ffigurau hyn wedi'i seilio ar sampl fach iawn (n=30) ac felly dylid eu trin yn ofalus (Ffigur 23).

*Ffigur 23: O feddwl am y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?*





*Nifer yr ymatebwyr: 30, 30 -* ***DS SYLFEINI BACH***

## 3.4 Ymwybyddiaeth o newidiadau er 2012 a boddhad â'r newidiadau hynny

Gofynnwyd i dderbynyddion grantiau cyfredol (rhwng mis Ebrill 2014 a mis Ebrill 2016) ac i dderbynyddion grantiau diweddar (rhwng mis Ebrill 2012 a mis Ebrill 2014) ddangos a oeddent hefyd wedi cael grant gan Lywodraeth Cymru cyn y flwyddyn ariannol honno. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (73 y cant) eu bod wedi cael grant o'r blaen ond dywedodd ychydig o dan chwarter (23 y cant) nad oeddent (gweler Ffigur 24).

*Ffigur 24: A ydych chi hefyd wedi derbyn grant gan Lywodraeth Cymru cyn y flwyddyn ariannol honno?*





*Nifer yr ymatebwyr*: *864*

Mae'r Prosiect Grantiau wedi hwyluso nifer o newidiadau i broses rheoli grantiau Llywodraeth Cymru er 2012, gan gynnwys cyflwyno Safonau Gofynnol ar gyfer Grantiau, templedi safonol a datblygu canllawiau a hyfforddiant i swyddogion Llywodraeth Cymru, ac mae wedi sefydlu blwch post ymholiadau allanol. Felly, gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi cael grant o'r blaen a oeddent wedi sylwi ar unrhyw newidiadau i broses rheoli grantiau Llywodraeth Cymru dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Fel y mae Ffigur 25 yn ei ddangos, dywedodd bron 40 y cant o'r ymatebwyr (39 y cant) eu bod wedi sylwi bod y broses wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf a dywedodd 45 y cant nad oeddent wedi sylwi ar unrhyw newid.

*Ffigur 25: A ydych wedi sylwi ar unrhyw newidiadau i broses rheoli grantiau Llywodraeth Cymru dros y pedair blynedd ddiwethaf?*




*Nifer yr ymatebwyr*: *628*


I'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi sylwi ar newid yn y broses rheoli grantiau dros y pedair blynedd ddiwethaf, cyflwynwyd pum datganiad ynglŷn â'r newidiadau yr oeddent wedi sylwi arnynt. Gofynnwyd i'r derbynyddion ddweud i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno: bod y newidiadau wedi'i gwneud yn haws i wneud cais am grantiau Llywodraeth Cymru, bod y newidiadau wedi gwneud y broses rheoli grantiau'n llai beichus; bod y newidiadau wedi gwneud y broses rheoli grantiau'n fwy cyson; bod y newidiadau wedi gwella'r gwasanaeth cymorth a gafwyd gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru; ac ar y cyfan, eu bod yn fodlon bod y newidiadau wedi gwella proses rheoli grantiau Llywodraeth Cymru.

Fel y gwelir yn Ffigur 26, roedd dros hanner yr ymatebwyr (54 y cant) yn meddwl bod y newidiadau wedi gwneud y broses rheoli grantiau'n fwy cyson. Ar gyfer y datganiad hwn hefyd y cafwyd y nifer isaf o ymatebion negyddol (14 y cant). Ymatebodd tua hanner yr ymatebwyr (49 y cant) yn gadarnhaol i'r datganiad bod y newidiadau ar y cyfan wedi gwella proses rheoli grantiau Llywodraeth Cymru.

Y datganiad a gafodd y sgôr gadarnhaol isaf (34 y cant) a'r sgôr negyddol uchaf (29 y cant) oedd yr un ynglŷn ag a oedd y newidiadau wedi gwneud y broses rheoli grantiau'n llai beichus.

Dylid nodi bod nifer fawr o ymatebion niwtral (o leiaf un rhan o dair) ar gyfer pob datganiad yn yr adran hon. Gall hyn awgrymu nad oedd yr ymatebwyr yn teimlo'u bod yn gwybod digon am effaith y newidiadau i farnu’r naill ffordd neu'r llall. Yn benodol, roedd 43 y cant o'r ymatebwyr yn niwtral eu hagwedd ynglŷn ag a oedd y newidiadau'n ei gwneud hi'n haws gwneud cais am grantiau Llywodraeth Cymru.

*Ffigur 26: O feddwl am y newidiadau i broses rheoli grantiau Llywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?*




*Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 244,243,242,242,243*

## 3.5 Sylwadau agored - profiadau cyffredinol ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r broses rheoli grantiau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'cyfredol' a 'diweddar' a fyddent yn hoffi cynnig unrhyw sylwadau ychwanegol am eu profiad o ran trefniadau rheoli grantiau Llywodraeth Cymru ynghyd â chwestiwn ar wahân ar gyfer awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid gwella'r broses. Roedd y themâu a gododd o'r cwestiynau hyn yn debyg yn y ddwy set o ymatebion, ac roedd nifer o'r awgrymiadau ar gyfer gwella'n cyfateb i'r profiadau a ddisgrifiwyd ganddynt, ac felly mae'r sylwadau agored wedi'u cyfuno yn yr adran hon. Dyma'r prif themâu (yn nhrefn eu maint):

<u>Y baich gweinyddol</u>

Cafwyd y nifer fwyaf o sylwadau am y baich gweinyddol a diffyg hyblygrwydd y broses yn gyffredinol. Weithiau, ystyriwyd bod y broses grantiau'n feichus a oedd yn gofyn am waith gweinyddol rheolaidd a sylweddol. Roedd yr ymatebion yn sôn am ddogfennau hirfaith, ailadroddus, a bod y baich, yn enwedig o ran monitro ac archwilio, weithiau'n anghymesur â gwerth yr hawliad. Roedd rhai yn teimlo hefyd bod y baich gweinyddol wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddaraf.

Awgrymwyd sawl ffordd y gellid gwella pethau yn y maes hwn. Roedd derbynyddion yn meddwl y gellid symleiddio'r broses drwy:

- sicrhau bod y broses drwyddi draw yn gymesur â'r grant a ddyfarnwyd;
- gofyn am fanylion llai penodol yn ystod y cam cynllunio a lleihau'r gwaith papur yn gyffredinol;
- awgrymodd cyrff llai yn benodol y gallai rhagor o gymorth a chyngor eu helpu i gryfhau eu ceisiadau a'u helpu i lywio drwy'r broses;
- gwneud canllawiau'n fwy eglur ac yn haws cael gafael arnynt;
- gallai ffurflenni cais ddefnyddio iaith symlach a chael eu teilwra i anghenion mathau gwahanol o ymgeiswyr;
- fformatau mwy hyblyg ar gyfer templedi gwneud cais, er enghraifft, dileu'r terfynau ar nifer geiriau, a hwyluso'r trefniadau i gyflwyno gwybodaeth ar lein;
- teimlwyd bod monitro bob chwarter yn dyblygu gwaith, ac y byddai lleihau ailadrodd yn y wybodaeth a ddarperid yn help i wella'r broses yn gyffredinol;
- gallai'r grantiau fod yn fwy hyblyg o ran ehangu cymhwysedd ar draws lleoliadau daearyddol;

- teimlwyd y gallai taliadau fod yn fwy hyblyg, e.e. gyda rhagor o opsiynau i gyrff gael eu talu ymlaen llaw yn hytrach nag ar ffurf ôl-daliadau;
- bod Llywodraeth Cymru'n manteisio rhagor ar adborth ymgeiswyr blaenorol, yn ogystal ag ystyried yr arferion gorau a fabwysiadwyd gan gyrff eraill sy'n rhoi grantiau, er mwyn gwella'r broses;
- cynnwys trydydd partïon annibynnol, er enghraifft, wrth sgorio ceisiadau neu fel arbenigwyr sydd â phrofiad perthnasol yn y broses asesu.

Amserlenni

Y thema y gwnaed nifer fwyaf ond un o sylwadau amdani oedd am amserlenni'r broses. Roedd rhai ymatebwyr yn ei chael hi'n anodd cwblhau cais am grant o fewn yr amserlenni tynn, dywedodd eraill y byddent yn hoffi gweld llai o amser rhwng cyflwyno cais a chael y penderfyniad. Dywedodd llawer fod y broses ar y cyfan yn rhy faith ac yn anghyson â chyflymder penderfyniadau busnes.

Dyma rai o'r awgrymiadau ar gyfer gwella amserlenni:

- cynigion ar gyfer cyhoeddi cymeradwyaeth i grantiau'n gynharach, yn enwedig ar gyfer prosiectau tymor hwy i hwyluso cadw staff profiadol;
- ymestyn y blociau ariannu o flwyddyn i ddwy neu dair blynedd, gan roi rhagor o amser i dderbynyddion sicrhau canlyniadau, a gwella gwerth am arian;
- cynnig arian tymor hwy i brosiectau llwyddiannus;
- Llywodraeth Cymru yn cadw at amserlenni sydd wedi'u cynllunio i alluogi derbynyddion grantiau i roi rhaglenni ar waith yn unol â'u cynlluniau;
- gallai newid dyddiadau cau ar gyfer hawliadau fod o fudd, yn enwedig er mwyn osgoi gwrthdaro â chyfrifon diwedd blwyddyn cyrff a gohirio'r hawliad terfynol nes bod y prosiect wedi dod i ben; a
- byddai o gymorth pe bai'r arian yn cael ei dalu'n fwy prydlon ar ôl i hawliadau gael eu cyflwyno.

Anghysondeb

Roedd y ffaith bod y broses yn amrywio hefyd yn un o'r prif themâu. Roedd sawl ymatebydd wedi wynebu anghysondeb wrth dderbyn sawl grant tebyg o ran eu natur o ran cyflwyno ceisiadau, prosesau ar gyfer hawliadau a gofynion monitro, gan gynyddu'r baich ar rai derbynyddion yn sgil hynny. Roedd y rhai a oedd hefyd wedi

cael grantiau drwy ffynonellau eraill hefyd yn sôn am anhawster cymharol proses grantiau Llywodraeth Cymru.

Dyma rai o'r awgrymiadau ar gyfer gwella:

- mwy o gysondeb rhwng prosesau ar gyfer grantiau tebyg;
- llai o grantiau a grwpio grantiau tebyg gyda'i gilydd er mwyn ei gwneud hi'n hawdd gallu adnabod ffynonellau ariannu cymwys;
- gallai fod yn haws dod o hyd i grantiau drwy gael un wefan i'w chwilio fesul sector neu yn ôl maint y corff er mwyn i rywun allu asesu ei gymhwysedd yn hawdd.

<u>Cyfathrebu</u>

Roedd y cyfathrebu gan Lywodraeth Cymru hefyd yn thema a godwyd. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr yr hoffent weld gwell cyfathrebu gan Lywodraeth Cymru yn ystod y broses grantiau, gan gynnwys cadarnhad bod eu cais a'u ffurflenni hawlio wedi cyrraedd. Awgrymodd nifer o ymatebwyr nad oedd y cyfathrebu bob tro'n gyson.

Dyma'r gwelliannau a grybwyllwyd gan ymatebwyr:

- byddai mwy o ganolbwyntio ar gwsmeriaid, megis gwell dealltwriaeth o anghenion cyrff sy'n derbyn grantiau, yn gwella'r cymorth a ddarperir gan swyddogion;
- mwy o gysylltiad wyneb-yn-wyneb â swyddogion Llywodraeth Cymru a chynnig y byddai cysylltiad uniongyrchol â'r un person drwy gydol y broses yn help i sicrhau dilyniant;
- gallai digwyddiadau sy'n ymwneud yn benodol â grantiau fod yn fuddiol er mwyn gallu trafod a rhoi'r cyfle i ymgeiswyr gyfrannu at wella'r broses;
- dylid cyfleu'r newidiadau i delerau, amodau a monitro trefniadau i dderbynyddion er mwyn sicrhau bod prosesau newydd yn cael eu deall yn glir;
- hyrwyddo'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau er mwyn i ymgeiswyr fod yn ymwybodol o sut i gael gafael ar yr help sydd ar gael iddynt.

<u>Sylwadau cadarnhaol</u>

Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan nifer o ymatebwyr am y broses grantiau'n

gyffredinol a chafwyd enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus yn ei sgil. Yn groes i'r pwyntiau a godwyd am faich gweinyddol y grantiau, dywedodd rhai ymatebwyr eu bod wedi gweld y broses yn gwella dros y blynyddoedd o ran ei bod yn haws ei defnyddio ac yn gyflymach.


# 4 Meysydd ychwanegol yr ymdriniwyd â hwy yn yr arolwg

Roedd yr arolwg yn gyfle i ofyn i'r ymatebwyr am flaenoriaethau allweddol eraill Llywodraeth Cymru gyda golwg ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector a'u dewis iaith wrth gyfathrebu â Llywodraeth Cymru am grantiau.

## 4.1 Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector

Gofynnwyd i ymatebwyr o'r trydydd sector a gafodd grantiau rhwng 2012 a 2016 a oeddent wedi clywed am y Cod Ymarfer ar gyfer y Trydydd Sector. Fel mae Ffigur 27 yn ei ddangos, roedd 40 y cant o ymatebwyr  y trydydd sector wedi clywed am y Cod Ymarfer, ond roedd dros eu hanner (56 y cant) heb glywed amdano.

*Ffigur 27: A ydych chi wedi clywed am y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector?*





*Nifer yr ymatebwyr*: *195*

Gofynnwyd i ymatebwyr y trydydd sector a ddywedodd eu bod wedi clywed am y Cod Ymarfer ddweud i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: bod Llywodraeth Cymru'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector; a bod Llywodraeth Cymru'n hybu cydymffurfiad â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r trydydd Sector.

Fel y gwelir yn Ffigur 28, roedd dros hanner (55 y cant) wedi ymateb yn gadarnhaol ynglŷn â Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ac yn hybu cydymffurfiad â'r Cod Ymarfer (58 y cant).

O ran sgoriau negyddol, dim ond 14 y cant o dderbynyddion y trydydd sector a oedd yn anghytuno bod Llywodraeth Cymru yn hybu cydymffurfiad â'r Cod Ymarfer, ac roedd dros chwarter (27 y cant) o'r ymatebion yn niwtral ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd bron chwarter y derbynyddion (24 y cant) yn anghytuno â'r datganiad bod Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer.

*Ffigur 28: O feddwl am y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:*





*Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 78, 77*

### 4.2 Y Gymraeg

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddweud a fyddai'n well ganddynt gyfathrebu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â grantiau yn Gymraeg, yn Saesneg ynteu yn y ddwy iaith. Fel y gwelir yn Ffigur 29, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (82 y cant) ei bod yn well ganddynt gyfathrebu ynglŷn â grantiau yn Saesneg. Roedd yn well gan wyth y cant o'r ymatebwyr gyfathrebu am grantiau yn Gymraeg a 10 y cant yn Gymraeg ac yn Saesneg.


*Ffigur 29: Ym mha iaith y byddai'n well gennych gyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â grantiau?*




*Nifer yr ymatebwyr: 857*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd ei bod yn well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg neu yn Gymraeg ac yn Saesneg pa mor aml maen nhw'n gallu defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â grantiau. Dywedodd bron hanner (45 y cant) o'r ymatebwyr y gallent ddefnyddio'r Gymraeg o hyd neu'n aml. Dywedodd chwarter yr ymatebwyr (25 y cant) eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg weithiau, dywedodd 18 y cant mai anaml y gallent ei defnyddio a dywedodd 12 y cant nad oeddent byth yn gallu defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu ynglŷn â grantiau (Ffigur 30).

*Ffigur 30: Pa mor aml ydych chi'n gallu defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â grantiau?*




*Nifer yr ymatebwyr: 154*

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr a ddywedodd ei bod yn well ganddynt gyfathrebu am grantiau yn Gymraeg neu yn Gymraeg ac yn Saesneg gynnig sylwadau am ddefnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu â Llywodraeth Cymru.

<u>Sgiliau Cymraeg yn Llywodraeth Cymru</u>

Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n canolbwyntio ar ddiffyg gallu swyddogion i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg ac felly, roedd rhai yn poeni am sut y byddai unrhyw ffurflenni a gyflwynid yn Gymraeg yn cael eu dehongli.

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod, er bod nifer o staff Llywodraeth Cymru yn dysgu'r iaith, y byddai'n anodd trefnu trafodaeth fwy technegol drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhai o'r awgrymiadau a gafwyd am sut i wella hyn oedd cyflwyno rhyw ffordd i dderbynyddion grantiau wybod pa swyddogion sy'n siarad Cymraeg.

<u>Darpariaeth ddwyieithog a chael gwybod pa iaith a ffefrir</u>

Dywedodd eraill ei bod yn rhaid gofyn am fersiynau Cymraeg rhai ffurflenni penodol (e.e. monitro). Teimlai rhai y dylai'r ffurflenni hyn gael eu darparu'n ddwyieithog bob tro; a dywedodd eraill fod disgwyl i ffurflenni Cymraeg gyrraedd yn rhwystr rhag cwblhau ceisiadau mewn pryd.

Dywedodd rhai nad oeddent bob tro wedi cael rhywun yn holi beth oedd eu dewis iaith cyn cyfarfodydd â Llywodraeth Cymru. Awgrymwyd hefyd nad oedd tudalennau gwefan Llywodraeth Cymru ar gael yn ddwyieithog bob tro.

Ystyriaethau eraill

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod derbynyddion grantiau'n cyfathrebu'n ddwyieithog â'r cyhoedd am eu prosiectau sy'n cael arian grant. Dywedodd ymatebwyr Cymraeg eu hiaith eraill eu bod yn dewis ymwneud â Llywodraeth Cymru yn Saesneg yn unig oherwydd eu bod yn gweithio i gorff lle nad oes llawer o siaradwyr Cymraeg a'i bod felly'n haws anfon negeseuon e-bost a mathau eraill o ohebiaeth ymlaen.

Sylwadau cadarnhaol

Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan eraill am eu profiadau o gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg â swyddogion grantiau, gan ddweud pa mor bwysig oedd hi wedi bod iddynt allu defnyddio'r iaith yn rhwydd wrth gyfathrebu â Llywodraeth Cymru.

## Atodiad A

## Arolwg o Dderbynyddion Grantiau Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella gweinyddu ei grantiau'n barhaus. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, gwnaed nifer o welliannau; gan gynnwys sefydlu Canolfan Rhagoriaeth Grantiau, cyflwyno templedi safonol, a datblygu hyfforddiant a chanllawiau ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru. Dymuna Llywodraeth Cymru ddeall a yw'r newidiadau hyn wedi cael effaith ar fodlonrwydd sefydliadau allanol sy'n gwneud cais am grant i Lywodraeth Cymru neu'n derbyn grant ganddi.

Hoffem gael adborth gennych chi, fel ymgeisydd neu dderbynydd grant. Bydd eich sylwadau'n ein helpu i dargedu meysydd i'w gwella yn y dyfodol.

Sylwer bod yr arolwg hwn yn ceisio adborth ynghylch grantiau gan Lywodraeth Cymru yn unig ac nid yw'n berthnasol i'r rhai sydd wedi derbyn grantiau Ewropeaidd, er enghraifft gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

Ni ddylai'r arolwg gymryd mwy na 5-10 munud i'w gwblhau. Defnyddiwch y botymau ar waelod y sgrîn i lywio'ch ffordd drwy'r arolwg.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu eich bod yn cael unrhyw anhawster wrth gwblhau'r arolwg, ffoniwch Cerys Ponting ar 02920 370342 neu anfonwch e-bost i CorporateResearch@cymru.gsi.gov.uk

Mae'r arolwg yn gwbl ddienw ac ni ellir eich adnabod oddi wrth y wybodaeth a ddarparwch.

Bydd eich hunaniaeth yn cael ei guddio

Darllenwch fwy am gyfrinachedd a hunaniaeth gudd yma (yn agor mewn ffenestr newydd)

*[Pawb i weld cwestiynnau 1-3]*

**C1 I ba fath o sefydliad yr ydych yn gweithio?**

| | | |
|---|---|---|
| ☐ | Sefydliad Sector Cyhoeddus | **Ni welir C23** |
| ☐ | Sefydliad Sector Preifat | **Ni welir C23** |
| ☐ | Sefydliad Trydydd Sector/ Dielw | **Gwelir C23** |
| ☐ | Sefydliad Addysgol | **Ni welir C23** |
| ☐ | Arall, (nodwch os gwelwch yn dda) ______ | **Ni welir C23** |

**C2 Faint o bobl sy'n cael eu cyflogi gan eich sefydliad?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| ☐ | 0-9 | ☐ | 100-249 |
| ☐ | 10-24 | ☐ | 250-499 |
| ☐ | 25-49 | ☐ | 500 neu fwy |
| ☐ | 50-99 | ☐ | Ddim yn gwybod |

**Q3 Ym mha flwyddyn ariannol y gwnaethoch chi dderbyn eich grant diweddaraf gan Lywodraeth Cymru?**

Mae 'grant gan Lywodraeth Cymru' yn cyfeirio at grantiau sy'n cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'n cynnwys grantiau gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

| | | | |
|---|---|---|---|
| **a** | Ebrill 2015/16 | ☐ | **Gwelir C4, yna C5** |
| **b** | Ebrill 2014/15 | ☐ | **Gwelir C4, yna C5** |
| **c** | Ebrill 2013/14 | ☐ | **Gwelir C4, yna C15** |
| **d** | Ebrill 2012/13 | ☐ | **Gwelir C4, yna C15** |
| **e** | Cyn Ebrill 2012/13 | ☐ | **Gwelir C15** |
| **f** | Nid wyf wedi derbyn grant gan Lywodraeth Cymru erioed | ☐ | **Gwelir C15** |

*[Gwelir C4 gan dderbynyddion 2012-16]*

**C4 A ydych chi hefyd wedi derbyn grant cyn y flwyddyn ariannol honno?**

☐ **Ydw** **Gwelir C19**
☐ **Nac ydw** **Ni welir C19**
☐ **Ddim yn gwybod** **Ni welir C19**

---

*[Gwelir C5 - 14 gan dderbynyddion Ebrill 2015/16 neu Ebrill 2014/15 yn unig]*

**C5 A ydych chi wedi bod yn rhan o unrhyw rai o'r prosesau isod? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

| | |
|---|---|
| Cyflwyno cais am grant gan Lywodraeth Cymru | ☐ **Gwelir C6-7** |
| Cytuno telerau ac amodau cytundeb ariannu ar gyfer grant gan Lywodraeth Cymru | ☐ **Gwelir C8** |
| Y broses o wneud hawliad ariannol neu dderbyn taliad grant gan Lywodraeth Cymru | ☐ **Gwelir C9** |
| Y broses fonitro ar gyfer grant gan Lywodraeth Cymru | ☐ **Gwelir C10** |

*[Gwelir C6 – 7 gan y rhai a dewiswyd 'Cyflwyno cais am grant', C5]*

**C6 O feddwl am y canllawiau cychwynnol ynglŷn â gwneud cais am grant gan Lywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?**

| | |
|---|---|
| Roedd yn hawdd cael gafael ar wybodaeth ar sut i wneud cais am arian | Cytuno'n gryf<br>Cytuno<br>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno<br>Anghytuno<br>Anghytuno'n gryf |
| Roedd y canllawiau ynglŷn â gwneud cais yn eglur ac yn hawdd eu deall | |
| Roedd nodau, amcanion a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer y grantiau wedi eu cyfathrebu'n eglur yn y canllawiau | |
| Roedd y meini prawf cymhwysedd a chyllid wedi eu datgan yn eglur yn y canllawiau | |
| Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r canllawiau ynghylch gwneud cais | |

**C7 O feddwl am y broses o wneud cais a phenderfynu arno, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?**

| | |
|---|---|
| Roedd y broses o wneud cais yn eglur ac yn hawdd ei deall | Cytuno'n gryf<br>Cytuno<br>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno<br>Anghytuno<br>Anghytuno'n gryf |
| Rhoddwyd amser digonol i gwblhau'r ffurflen gais | |
| Roedd yr amserlen ar gyfer gwneud cais a chael penderfyniad wedi'i mynegi'n eglur | |
| Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r broses o wneud cais a chael penderfyniad | |

*[Gwelir C8 gan y rhai a dewiswyd 'Cytuno telerau ac amodau cytundeb ariannu' C5]*

**C8 O feddwl am y cytundeb ariannu, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?**

| | |
|---|---|
| Roedd y cytundeb ariannu'n hawdd ei ddilyn a'i ddeall | Cytuno'n gryf<br>Cytuno<br>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno<br>Anghytuno<br>Anghytuno'n gryf |
| Cyhoeddwyd y cytundeb ariannu mewn da bryd | |
| Roedd y cytundeb ariannu'n pennu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r ddwy ochr yn eglur | |
| Caniatawyd cyfnod rhesymol i ystyried y cytundeb ariannu cyn ei dderbyn yn ffurfiol | |
| Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â chytundeb ariannu Llywodraeth Cymru | |

*[Gwelir C9 gan y rhai a dewiswyd 'gwneud hawliad ariannol neu dderbyn taliad grant' C5]*

**C9 O feddwl am y broses hawliadau a thaliadau, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?**

| | |
|---|---|
| Roedd yn hawdd cael gafael ar wybodaeth ar sut i wneud hawliadau | Cytuno'n gryf<br>Cytuno<br>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno<br>Anghytuno<br>Anghytuno'n gryf |
| Mynegwyd amserlen y broses gwneud hawliadau'n eglur | |
| Roedd y templedi a ffurflenni hawlio yn hawdd eu defnyddio | |
| Roeddwn yn fodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'm hawliadau | |
| Proseswyd hawliadau mewn da bryd | |
| Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r broses hawliadau a thaliadau | |

*[Gwelir C10 gan y rhai a dewiswyd 'broses monitro grantiau' C5]*

**C10 O feddwl am y broses monitro grantiau, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?**

| | |
|---|---|
| Gosodwyd y gofynion monitro'n eglur yn y cytundeb ariannu | Cytuno'n gryf<br>Cytuno<br>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno<br>Anghytuno<br>Anghytuno'n gryf |
| Cynhaliwyd y broses fonitro mewn da bryd | |
| Roedd y gofynion monitro'n addas ar gyfer lefel y cyllid | |
| Ymdriniwyd â cheisiadau am newidiadau (e.e. newidiadau o ran amseru, adnoddau) yn briodol | |
| Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r broses monitro grantiau | |

*[Gwelir C11-12 gan dderbynyddion 2014-16]*

**C11 Os hoffech ddarparu unrhyw sylwadau ynglŷn â'ch profiad o reolaeth grantiau Llywodraeth Cymru, ysgrifennwch nhw yma:**

| |
|---|
| |

**C12 A ydych chi eich hun wedi cael unrhyw gysylltiad uniongyrchol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â rheoli grantiau?**

☐ Ydw **Gwelir C13**
☐ Nac ydw **Gwelir C17**
☐ Ddim yn gwybod **Gwelir C17**

*[Gwelir C13-14 gan y rhai a dewiswyd 'Ydw' uchod]*

**C13 O feddwl am unrhyw gysylltiadau rhyngoch chi a swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?**

| | |
|---|---|
| Roedd y cymorth a ddarparwyd gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru yn eglur ac yn hawdd ei ddeall | Cytuno'n gryf<br>Cytuno<br>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno<br>Anghytuno<br>Anghytuno'n gryf |
| Roedd y cymorth a ddarparwyd gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru yn brydlon | |
| Roedd y cymorth a ddarparwyd gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru yn gyson | |
| Roedd yn hawdd cael gafael ar yr unigolyn cywir yn Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth | |
| Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon â'r cymorth a gefais gan swyddogion grantiau Lywodraeth Cymru | |

**C14 Os hoffech roi unrhyw sylwadau ynglŷn â'ch profiad o ymwneud â swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru, ysgrifennwch nhw yma:**

| |
|---|
| |

**Yna, gwelir C17**

----------------------------------------------------------------------------------------------------

*[Gwelir C15 - 14 gan dderbynyddion grant Ebrill 2013/14 ac Ebrill 2012/13, yn ogystal â derbynyddion cyn Ebrill 2012/13 a'r rhai nad oedd wedi derbyn grant gan Lywodraeth Cymru erioed]*

**C15 O feddwl am eich profiad o reolaeth grantiau Llywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?**

| | |
|---|---|
| Roeddwn yn fodlon â'r canllawiau ynglŷn â gwneud cais | Cytuno'n gryf<br>Cytuno<br>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno<br>Anghytuno<br>Anghytuno'n gryf<br>Ddim yn berthnasol |
| Roeddwn yn fodlon â'r broses o wneud cais a chael penderfyniad | |
| Roeddwn yn fodlon â chytundeb ariannu Llywodraeth Cymru | |
| Roeddwn yn fodlon â'r broses hawliadau a thaliadau | |
| Roeddwn yn fodlon â'r broses monitro grantiau | |
| Roeddwn yn fodlon â'r cymorth a gefais gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru | |

**C16 Os hoffech roi unrhyw sylwadau ynglŷn â'ch profiad o ymwneud â rheolaeth grantiau Llywodraeth Cymru, ysgrifennwch nhw yma:**

| |
|---|
| |

*[Cyfeiriwyd derbynyddion grant cyn Ebrill 2012/13 a'r rhai nad oedd wedi derbyn grant gan Lywodraeth Cymru erioed, allan o'r arolwg drwy neges diolch]*

---------------------------------------------------------------------------------------------------------

*[Gwelir C17 gan bob derbynydd 2012-16]*

**C17 A ydych chi'n ymwybodol o'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau?**

☐ Ydw **Gwelir C18**
☐ Nac Ydw **Gwelir C20 (os C4 = Ydw) neu C22 (os C4 = Nac Ydw)**
☐ Ddim yn gwybod **Gwelir C20 (os C4 = Ydw) neu C22 (os C4 = Nac Ydw))**

*[Gwelir C18 gan y rhai a dewiswyd 'Ydw' uchod]*

**C18 A ddarparwyd cymorth a chyngor i chi gan y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau?**

☐ Do **Gwelir C19**
☐ Naddo **Gwelir C20 (os C4 = Ydw) neu C22 (os C4 = Nac Ydw)**
☐ Ddim yn gwybod **Gwelir C20 (os C4 = Ydw) neu C22 (os C4 = Nac Ydw)**

*[Gwelir C19 gan y rhai a dewiswyd 'Do' uchod]*

**C19 I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?**

| | |
|---|---|
| Mae'r cyswllt â Chanolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru wedi bod o fudd i mi | Cytuno'n gryf<br>Cytuno<br>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno<br>Anghytuno<br>Anghytuno'n gryf |
| Cafodd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau effaith gadarnhaol ar y ffordd y rheolir fy ngrant gan Lywodraeth Cymru | |

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi gweithredu nifer o newidiadau i'r broses rheoli grantiau dros y pedair blynedd ddiwethaf er enghraifft, creu templedi safonol, datblygu canllawiau a hyfforddiant ar gyfer rheolwyr grantiau, a sefydlu blwch post ar gyfer ymholiadau allanol.

*[Gwelir C20 gan y rhai a dewiswyd 'Ydw' C4]*

**C20 A ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau i broses rheoli grantiau Llywodraeth Cymru dros y pedwar blynedd ddiwethaf?**

☐ Ydw **Gwelir C21**
☐ Nac Ydw **Gwelir C22**
☐ Ddim yn gwybod **Gwelir C22**

*[Gwelir C21 gan y rhai a dewiswyd 'Ydw' uchod]*

**C21 I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?**

| | |
|---|---|
| Mae'r newidiadau wedi ei gwneud yn haws i wneud cais am grant gan Lywodraeth Cymru | Cytuno'n gryf<br>Cytuno<br>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno<br>Anghytuno<br>Anghytuno'n gryf |
| Mae'r newidiadau wedi gwneud y broses rheoli grantiau yn llai beichus | |
| Mae'r newidiadau wedi gwneud y broses rheoli grantiau'n fwy cyson | |
| Mae'r newidiadau wedi gwella'r gwasanaeth cymorth yr wyf i'n ei gael gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru | |
| Ar y cyfan, rydw i'n credu bod y newidiadau wedi gwella proses rheoli grantiau Llywodraeth Cymru | |

*[Gwelir C22 gan bob derbynydd 2012-16]*

**C22 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid gwella proses rheoli grantiau Llywodraeth Cymru, ysgrifennwch nhw yma:**

| |
|---|
| |

---

*[Gwelir C23 gan atebyddion Sefydliad Trydydd Sector/ Dielw 2012-2016 yn unig]*

**C23 A ydych chi wedi clywed am y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector?**

☐ Ydw **Gwelir C24**
☐ Nac Ydw **Gwelir C25**
☐ Ddim yn gwybod **Gwelir C25**

*[Gwelir C24 gan y rhai a dewiswyd 'Ydw' uchod]*

**C24 I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?**

| | |
|---|---|
| Mae Llywodraeth Cymru'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector | Cytuno'n gryf<br>Cytuno<br>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno<br>Anghytuno<br>Anghytuno'n gryf |
| Mae Llywodraeth Cymru'n hybu cydymffurfiad â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector | |

----------------------------------------------------------------------------------------------------

*[Gwelir C25 gan bob derbynydd 2012-16]*

**C25 Ym mha iaith y byddai'n well gennych gyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â grantiau?**

- ☐ Cymraeg **Gwelir C26**
- ☐ Saesneg **Gwelir y tudalen terfynnol**
- ☐ Y ddwy iaith **Gwelir C26**

*[Os Cymraeg/Y ddwy, gwelwyd C26 a C27]*

**C26 Pa mor aml ydych chi'n gallu defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â grantiau?**

- ☐ Bob amser
- ☐ Yn aml
- ☐ Weithiau
- ☐ Yn Anaml
- ☐ Byth

**C27 Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru, ysgrifennwch nhw yma:**

| |
|---|
| |

----------------------------------------------------------------------------------------------------

***[Tudalen terfynnol]***

Pwyswch y botwm gyrru i gyflwyno'ch ymateb i'r arolwg

*[Ar ôl gwneud hynny, byddant yn symud ymlaen i'r dudalen olaf gyda'r neges ganlynol:]*

Diolch am gymryd rhan yn yr arolwg, mae eich ymateb wedi ei gyflwyno.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynllunio gwelliannau ychwanegol i'r ffordd y mae'n ymdrin â grantiau. Anfonwch e-bost at y Blwch Post Ymholiadau Grantiau (GrantQueries@cymru.gsi.gov.uk) os hoffech chi fod yn rhan o'r trafodaethau hyn.

Mae eich ymateb i'r arolwg yn gwbl ddienw ac ni ellir eich adnabod oddi wrth y wybodaeth a ddarparwyd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r arolwg hwn, ffoniwch Cerys Ponting ar 02920 370342 neu anfonwch e-bost i CorporateResearch@cymru.gsi.gov.uk

## Atodiad B

### *Canfyddiadau gan ymatebwyr y tu hwnt i gwmpas yr arolwg*

Cafwyd 169 o ymatebion gan y rhai a oedd naill ai wedi cael grant cyn 2012, wedi cael rhyw ran mewn rhan o'r broses grantiau (er enghraifft wedi gwneud cais ond heb gael grant), neu heb gael grant erioed, yn unol â'r adran yn yr adroddiad hwn sy'n sôn am y dull a'r sampl. Roedd y grŵp hwn y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hwn, a'r nod oedd ceisio adborth gan bobl a oedd wedi cael grant er 2012.

Cynigiwyd yr adran boddhad fyrrach hefyd i'r ymatebwyr hyn gan roi un datganiad ar gyfer pob cam o'r broses grantiau. Gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn fodlon ar: y canllawiau ar gyfer gwneud cais; y broses o wneud cais a chael penderfyniad; cytundeb ariannu Llywodraeth Cymru; y broses hawliadau a thaliadau; y broses o fonitro grantiau; a'r cymorth a gafwyd gan swyddogion grantiau Llywodraeth Cymru.


Yn ogystal â'r raddfa bum pwynt o gytuno'n gryf i anghytuno'n gryf, cynigiwyd opsiwn 'amherthnasol' hefyd er mwyn i ymatebwyr allu dangos nad oedd ganddynt brofiad o'r maes penodol hwnnw. Mae'r ymatebion amherthnasol wedi'u heithrio o'r ffigurau.

Mae Ffigur B1 yn dangos bod sgoriau cadarnhaol yn amrywio o 59 y cant i 45 y cant. Cofnodwyd y sgôr gadarnhaol uchaf (59 y cant) ar gyfer y datganiad oedd yn ymwneud â boddhad â'r broses monitro grantiau, ac i hwn hefyd y rhoddwyd y sgôr negyddol isaf (16 y cant). Cafwyd ymateb niwtral gan chwarter (25 y cant) o'r ymatebwyr i'r datganiad hwn.

Cofnodwyd y sgôr negyddol uchaf (39 y cant) ar gyfer y datganiad am foddhad â'r broses o wneud cais a phenderfynu, a hwn hefyd a gafodd y sgôr gadarnhaol isaf (45 y cant).

Fel y gwelir, mae'r sylfaen ymatebwyr yn is ar gyfer y trydydd, y pedwerydd a'r pumed datganiad gan na fyddai'r rheini nad oeddent erioed wedi cael grant gan Lywodraeth Cymru wedi cael profiad o'r camau monitro, hawlio na thalu grantiau nag o gam y cytundeb ariannu.

*Ffigur B1: O feddwl am eich profiad o reolaeth grantiau Llywodraeth Cymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?*




*Nifer yr ymatebwyr (o'r top i'r gwaelod): 127,121,105,100,99,118*

Sylwadau Agored

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd naill ai wedi cael grant cyn 2012 neu erioed wedi cael grant gynnig sylwadau am eu profiad o ran y ffordd yr oedd grantiau Llywodraeth Cymru'n cael eu rheoli. Cafwyd nifer gymharol fach o sylwadau gan yr ymatebwyr hyn am y canlynol:

- profiadau cadarnhaol o weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, a rhai ymatebwyr yn dweud eu bod yn gymwynasgar ac yn barod eu cymorth;
- awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid ymateb yn fwy prydlon i geisiadau;
- sicrhau bod gan swyddogion ddigon o wybodaeth am fusnes neu wybodaeth dechnegol i wneud penderfyniadau doeth wrth ddyfarnu grantiau;
- teimlad bod y broses gwneud cais yn feichus. Cafwyd awgrymiadau am fireinio a symleiddio'r canllawiau, a darparu rhagor o ffurflenni ar-lein;
- roedd rhai yn meddwl bod angen i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer grantiau fod yn fwy eglur.